



[Gweddïau ar gyfer Oedolion a Phob Oed](#)
[2-8 Gorffennaf 2017](#)

Cwpanaid o ddŵr oer Mathew 10.40-42

Galwad i addoli

Dyweddodd Iesu, 'Y mae'r sawl sy'n eich derbyn chwi yn fy nerbyn i, a'r sawl sy'n fy nerbyn i yn derbyn yr hwn a'm hanfonodd i.'
Dewch nawr i addoli, mae croeso mawr i chi!
Amen.

Gweddi ymgynnull

Dedwydd yw'r rhai sy'n byw yng ngoleuni Duw,
sy'n cerdded yn ffordd Iesu Grist,
ac sy'n addoli mewn ysbryd a gwirionedd.
Oherwydd mae eu gweithredoedd da yn moli Duw,
mae eu ffyddlondeb yn gogoneddu Crist,
ac maent yn dystion i ysbryd cariad Duw.
A deawn ninnau hefyd i addoli Duw. **Amen.**

Gweddi ddynesu

Dduw pob cenhedlaeth fel ei gilydd,
deuwn i'r lle hwn i'th addoli di.
Trwy ein geiriau, cyhoeddwn dy ffyddlondeb.
Trwy ein cerddoriaeth, canwn am dy gariad cadarn.
Yn ein gwranddo a'n gweddïo,
gyda'n cymdogion wrth ein hymyl ac o'n cwmpas,
fe'th addolwn di â'n gorau glas.
Amen.

Gweddi o gyffes

Cyfaddefwn nad ydym bob amser wedi rhoi o'n gorau,
nad ydym bob amser wedi byw fel pobl sy'n berchen ffydd,
sy'n barod i groesawu dieithryn;
a bu adegau pan fu i ni ymollwng i bechod,
a pheidio â bod yn garedig tuag at ein cymdogion.
Dal ni yn dy gariad,
wrth i ni gyffesu yn y distawrwydd...

Rho i ni dy faddeuant, O Dduw,
â chariad sydd y tu hwnt i'n dychymyg,
a thrugaredd nad yw byth yn blino maddau fel y gallwn fyw trwy dy ras,
a thrwy dy ras di yn unig. **Amen.**

Gweddïau o eiriolaeth

Gadewch i ni weddïo dros y byd, dy fyd di:
a ddaeth i fod trwy air a dderbyniwyd:
'Bydded',
a gynlluniwyd fel y gall pob un ganfod ei le,
a fwriadwyd i roi bwyd a chynhaliaeth i bawb,
a gyhoeddwyd yn 'dda' ym mhob ffordd.

Gadewch i ni weddïo dros y byd, ein byd ni:
ble mae'r bregus yn dyheu am gael eu derbyn,
ble mae'r anghenus yn brwydro'n erbyn effeithiau hunanoldeb,
ble mae ffoaduriaid yn dyheu am gael croeso,
a ble mae daioni'n cystadlu yn erbyn yr hyn nad yw'n iawn.

Gadewch i ni weddïo dros y byd, eich byd chi:
ble mae cymdeithasau'n gweithio dros heddwch a lles y ddynoliaeth,
ble dethlir gwahaniaethau rhwng cymunedau,
ble bydd unigolion yn ymestyn allan at y rhai sydd o'u cwmpas,
a daioni'n teyrnasu.

Amen.

Gweddi bersonol

Fi yw'r dieithryn sy'n chwilio am groeso.
Fi yw'r croeso sy'n cyfarch y dieithryn.
Fi yw'r un sy'n adnabod y proffwyd.
Fi yw'r proffwyd sy'n siarad gair o wirionedd.
Fi yw derbynnydd cariad a gras Duw.
Fi yw'r un y mae cariad Duw yn tywynnu trwyddo;
Fi yw hyn trwy ras Duw.

Amen.

Gweddi o ddiolchgarwch

Am y croeso a gawn yma

diolchwn i ti.

Am y cariad a ddangosi tuag atom

diolchwn i ti.

Am y caredigrwydd a welwn yn y rhai sy'n ffyddlon i ti

diolchwn i ti.

Am fod yn gryf pan fyddwn ni'n wan

diolchwn i ti.

Am obaith pan fydd amheuaeth yn ein llethu

diolchwn i ti.

Ac am dy gariad tuag at bob un ohonom.

diolchwn i ti.

Boed i'th groeso fod yn wahoddiad a estynnwn ni i eraill.

Boed i'th gariad fod yn gariad a rannwn ni ag eraill.

A boed i ni dyfu mewn ffydd wrth i ti barhau'n ffyddlon i ninnau.

Gofynnwn hyn yn enw Crist.

Amen.

Gweithgaredd gweddi

Trefnwch daith gweddi yn eich cymuned leol, neu defnyddiwch

eich dychymyg i ddarlunio llefydd cyfarwydd yn eich meddwl.

Cymerwch eich amser a sylwch beth sy'n digwydd o'ch cwmpas.

Pwy ydych chi'n gyfarfod? Beth maen nhw'n ei wneud? Beth sy'n

bwysig iddynt? Ydyn nhw dan bwysau neu'n ei chael yn anodd?

Ydyn nhw'n hapus a chanddynt achos dathlu?

Ydyn nhw'n unig

neu'n ei chael yn anodd cyflawni popeth?

Wrth i chi sylwi ar y

pethau hyn, daliwch bob person gerbron

Duw a gadewch i'ch

meddyliau eich arwain ble y mynnont.

Gweddi ar gyfer pob oed gyda'i gilydd

Anogwch bobl i edrych ar ei gilydd wrth iddynt ddweud gyda'i gilydd:

Gweddiwch drosof i,

ac fe weddi'af innau drosoch chi.

Meddyliwch amdanaf ym mhopeth a

wnewch,

ac fe feddyliaf innau amdanoch chi.

Oherwydd mae cariad Duw er fy mwyn i,

yn gymaint ag y mae er eich mwyn chi.

Amen.

Gweddi i gloi

Dduw, rwyf yn ein croesawu ac yn ein tynnu atat dy hun,

felly anfon ni allan i rannu'r croeso hwnnw ag eraill,

a synna ni wrth i ni dy ganfod ym mhob un a

gyfarfyddwn

wrth i ni fyw ein bywydau beunyddiol yr

wythnos hon.

Amen.

ROOTS



Resources to enrich worship and learning with adults, all ages, families, children, young people

ROOTS resources are published in two magazines, **Adult & All Age** and **Children & Young People**, and online at www.rootsontheweb.com.

Weekly lectionary-based materials to nourish, encourage and inspire.

ROOTS for Churches, a partnership of Churches and other Christian organisations, including the Welsh Sunday School Council

www.rootsontheweb.com